Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Sut i gofrestru

Canllawiau ynglŷn â chofrestru.

Cyhoeddwyd gyntaf: 20 June 2019
Diweddariad olaf: 16 October 2026

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf. Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/sut-i-gofrestru am y fersiwn diweddaraf.

Canllawiau ynglŷn â chofrestru.

Pryd i gofrestru

Os ydych chi'n **weithiwr cymdeithasol neu'n rheolwr gofal cymdeithasol,** rhaid i chi gofrestru ar ôl i chi gwblhau eich cymhwyster neu lwybr perthnasol i gofrestru, a dechrau yn y swydd.

Os ydych chi'n **weithiwr gofal cymdeithasol mewn rôl sy'n gofyn am gofrestru,** mae gennych chwe mis i gofrestru o'r dyddiad y byddwch chi'n dechrau gweithio yn eich rôl.

Darllenwch y canllaw isod i ddarganfod beth sydd angen i chi ei wneud i gofrestru.

Gweithwyr a rheolwyr gofal cymdeithasol

Dyma ganllaw cam wrth gam i'r hyn y mae angen i chi ei wneud i gofrestru gyda ni:

1. Gwiriwch a oes angen i chi gofrestru

Mae angen i'r rhan fwyaf o bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru gofrestru gyda ni. Gallwch ddod o hyd i restr o bwy sydd angen cofrestru yma.

2. Crëwch gyfrif GCCarlein

Os oes angen i chi gofrestru a'ch bod yn gwneud cais i gofrestru am y tro cyntaf, bydd angen i chi drefnu bod cyfrif ar ein system gofrestru, GCCarlein.

Mae hyn yn caniatáu i chi:

- wneud cais i gofrestru
- talu eich ffioedd cofrestru
- diweddaru'ch manylion
- adnewyddu eich cofrestriad ar ôl tair blynedd.

3. Casglwch y wybodaeth y bydd ei hangen arnoch i wneud cais

Pan fyddwch chi'n llenwi'ch cais i gofrestru, gofynnir i chi am:

- gyfeiriad e-bost personol
- eich rhif yswiriant gwladol
- manylion cyflogaeth (gan gynnwys cyfeiriad, teitl swydd a dyddiad dechrau neu ddyddiad dechrau yn y dyfodol os yw'n swydd newydd)
- eich manylion banc i drefnu Debyd Uniongyrchol neu fanylion cerdyn credyd i dalu'ch ffioedd
- dyddiad eich gwiriad cofnodion troseddol diweddaraf (DBS manylach), sydd â gwiriad 'Manylach gyda Rhestr Wahardd' ar gyfer y maes yr ydych chi'n gweithio ynddo (plant neu oedolion)
- cadarnhad eich bod yn bwriadu gweithio yng Nghymru
- copïau wedi'u gwirio o'ch dogfennau adnabod, oni bai eich bod chi wedi cael gwiriad DBS manylach yn ystod y tair blynedd diwethaf neu eich bod ar y gwasanaeth diweddaru DBS.

Cofnod disgyblu a throseddau

Rhaid i chi ddweud wrthym os ydych chi:

- wedi cael cofnod disgyblu
- yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd
- bod gennych gofnod troseddol.
- Mae canllawiau manwl ar yr hyn sydd ei angen arnoch ac nad oes angen ei ddatgelu ar gael yn y ffurflen gais.

4. Dewiswch eich llwybr i gofrestru

Cofrestru gyda chymhwyster

Cymerwch olwg ar ein fframwaith cymwysterau i weld pa gymwysterau rydyn ni'n eu derbyn ar gyfer gwahanol rolau o fewn gofal cymdeithasol. Mae gennym hefyd restr o gymwysterau eraill sy'n cael eu derbyn.

Os yw'ch cymhwyster chi ar y rhestr, bydd angen i chi anfon copi o'ch tystysgrif cymhwyster atom pan fyddwch chi'n llenwi eich ffurflen gais.

Cofrestru heb gymhwyster

Gall gweithwyr gofal cymdeithasol gofrestru heb gymhwyster trwy broses o'r enw **asesiad gan gyflogwr.**

Mae hyn yn golygu bod eich cyflogwr yn asesu eich dealltwriaeth yn erbyn rhestr o feysydd. Os ydyn nhw'n fodlon y gallwch chi wneud y gwaith, gallan nhw gadarnhau eich cais i gofrestru.

Ar ôl i chi gofrestru, mae gennych chi chwe blynedd i gwblhau un o'r cymwysterau a restrir yn y fframwaith cymwysterau, ond rydyn ni'n disgwyl i'r rhan fwyaf o weithwyr gofal cymdeithasol wneud hynny o fewn tair blynedd.

5. Cymeradwyo eich cais

Rhaid cymeradwyo eich cais i gadarnhau:

- eich cymeriad da
- nad oes rheswm na ddylech chi fod ar y Gofrestr.

Gofynnir i chi ddewis rhywun – a elwir yn llofnodwr – o restr o bobl gymeradwy o'ch sefydliad. Bydd y llofnodwr yn gallu gweld yr holl wybodaeth yn eich cais, ac eithrio eich atebion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Ni ddylai'r llofnodwr fod yn perthyn i chi ac ni ddylai fod mewn perthynas bersonol â chi.

Os ydych chi'n cymhwyso ym maes gwaith cymdeithasol yng Nghymru, dewiswch lofnodwr o'ch darparwr cwrs gradd (Sefydliad Addysg Uwch) neu'ch cyflogwr gofal cymdeithasol presennol. Os byddwch chi'n cael swydd erbyn i ni dderbyn cadarnhad o'ch cymhwyster, byddwn yn cysylltu â'ch cyflogwr newydd. Mae hyn yn digwydd cyn i ni gwblhau eich cofrestriad.

Mwy o wybodaeth am y broses gymeradwyo

6. Anfonwch eich dogfennau atom ni

Bydd angen i chi anfon copïau o'ch dogfennau gwreiddiol atom.

Mwy o wybodaeth am yr hyn sydd angen i chi ei anfon atom

7. Talwch y ffi gofrestru

Mae ffioedd yn amrywio yn dibynnu ar eich rôl.

Mwy o wybodaeth am ein ffioedd

8. Cyflwyno eich cais

Ar ôl ei gyflwyno, mae ceisiadau fel arfer yn cymryd **hyd at chwe wythnos** i'w prosesu.

Mewngofnodwch i GCCarlein i gychwyn y broses cofrestru

Myfyrwyr ar gwrs gradd gwaith cymdeithasol

Os ydych chi wedi cael cynnig lle ar gwrs gradd gwaith cymdeithasol yng Nghymru, byddwn yn anfon e-bost atoch yn gofyn i chi greu cyfrif GCCarlein fel y gallwch chi wneud cais i gofrestru.

Rhaid i chi fod wedi cofrestru gyda ni cyn dechrau eich cwrs.

Mae bwrsariaeth gwaith cymdeithasol ar gael i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol yng Nghymru i helpu gyda chostau astudio.

Gweithwyr cymdeithasol yn dychwelyd i ymarfer

Gwybodaeth am yr hyn sydd angen i chi ei wneud i wneud cais i gofrestru.

Gweithwyr cymdeithasol sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r DU

Darllenwch ein canllawiau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r DU ac sydd eisiau cofrestru i weithio yng Nghymru.

Dychwelyd i'r gofrestr

Os ydych wedi cael eich tynnu oddi ar y gofrestr am fethu â thalu eich ffi flynyddol neu am beidio ag adnewyddu’r ffi yn llawn, a'ch bod yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol ar hyn o bryd, bydd angen i chi ail-wneud cais i gofrestru. Dylech ddefnyddio eich cyfrif GCCarlein presennol a chwblhau ffurflen gais newydd.